# Antigenau a gwrthgyrff platennau mewn beichiogrwydd

## Gwybodaeth bwysig i gleifion

Mae'r daflen hon yn esbonio canlyniadau eich profion gwaed, a beth mae hyn yn ei olygu i chi ac i'ch babi. Mae'n cynnwys gwybodaeth am bwysigrwydd antigenau a gwrthgyrff platennau, mewn cyflwr a elwir yn Thrombocytopenia Aloimiwn y Newydd-enedigol (NAIT).

### Beth yw platennau?

Platennau yw'r mathau lleiaf o gelloedd sy'n cylchredeg yn y gwaed, ac maen nhw'n bwysig o ran atal a stopio gwaedu. Weithiau, mae gwaed yn cynnwys llai o blatennau na'r arfer, a'r enw ar y cyflwr hwn ydy Thrombocytopenia.

### Beth yw antigenau platennau?

Mae gan bob platen broteinau naturiol ar ei harwyneb, ac mae Antigenau Platennau Dynol (APD) wedi'u hymgorffori yn y rhain. Hyd at 2013, rydym yn gwybod am 28 o APDau (e.e. APD-1, APD-2, APD-3, ac ati), ond mae gwyddonwyr yn darganfod rhai newydd drwy'r amser. Mae'r APDau yn debyg i'r antigenau ar gelloedd coch, ond eto'n wahanol iddynt. Bydd rhai darllenwyr wedi dod ar draws antigenau celloedd coch eisoes - mae'r rhain yn cael eu hadnabod hefyd fel antigenau grwpiau gwaed. Mae'r holl APDau yn bodoli ar ddwy ffurf: 'a' neu 'b' e.e. APD–1a ac APD–1b.

### Sut mae antigenau platennau yn cael eu hetifeddu?


Mae APDau yn nodweddion etifeddol, ac mae pob plentyn yn etifeddu hanner eu APDau gan bob rhiant. Er enghraifft, gall plentyn etifeddu APD-1a oddi wrth y fam ac APD-1b oddi wrth y tad, a byddai eu math yn APD-1a1b. Fel arall, gall y plentyn etifeddu APD-1a oddi wrth y fam a'r tad, a byddai eu math yn APD-1a1a.

Mae'r diagramau yn dangos sut mae APD-1 yn cael ei etifeddu. Mae'r blychau sgwâr yn dynodi dynion; mae'r cylchoedd yn dynodi menywod. Mae'r blychau oren wedi'u




cysgodi'n dynodi'r plant a allai gael eu heffeithio; mae bocsys clir yn dynodi plant sydd heb gael eu heffeithio.

**esiampl 1**
Math y fam yw APD-1b1b a math y tad yw APD-1a1a. Yn yr achos hwn, bydd math y plant o'r bartneriaeth hon yn APD-1a1b bob amser, ac mae pob un ohonynt mewn perygl o etifeddu'r cyflwr NAIT.




**esiampl 2**
Math y fam yw APD-1b1b a math y tad yw APD-1a1b. Yn yr achos hwn, gall math y plant fod naill ai'n APD-1a1b neu'n APD-1b1b, yn dibynnu ar a yw'r babi yn etifeddu math APD-1a neu fath APD-1b oddi wrth y tad. Mae siawns o 50% y bydd plentyn yn etifeddu math APD-1a, a bod mewn perygl o etifeddu'r clefyd NAIT.




### Beth yw gwrthgyrff?

Mae gwrthgyrff yn rhan bwysig o system imiwnedd y corff, sy'n ein helpu i ymladd yn erbyn clefyd. Maent yn cael eu ffurfio pan mae system imiwnedd y corff yn dod i gysylltiad â sylwedd 'diethr', er enghraifft, bacteria, firysau, brechiad neu, yn ystod beichiogrwydd neu drallwysiad, math gwahanol o APD.

## Sut mae gwrthgyrff platennau yn ffurfio yn ystod beichiogrwydd?

Yn ystod beichiogrwydd, efallai y bydd rhai o blatennau'r babi yn pasio i mewn i lif gwaed y fam. Os yw APD y babi yn wahanol i APD y fam, gall ei system imiwnedd 'weld' yr APD ar blatennau'r babi fel rhai 'diethr', a chynhyrchu gwrthgyrff sy'n glynu wrth yr APD ac sy'n dinistrio platennau'r babi. Gelwir y gwrthgyrff hyn yn wrthgyrff APD. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw gwahaniaethau mewn APD rhwng y fam a'r babi yn achosi i'r fam gynhyrchu gwrthgyrff APD, ac nid oes unrhyw broblemau. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau mewn APD yn gysylltiedig yn fwy aml â ffurfio gwrthgyrff.

## Sut mae gwrthgyrff platennau yn effeithio ar feichiogrwydd?

Gall gwrthgyrff APD sydd yn cael eu cynhyrchu yn y fam groesi'r brych a mynd i mewn i lif gwaed y babi. Pan fydd y gwrthgyrff APD yn dod i gysylltiad â phlatennau'r babi, gallant eu difrodi neu eu dinistrio. Mae hyn yn achosi nifer y platennau (a elwir yn gyfrif platennau) yng ngwaed y babi i ostwng. Mae'r cyflwr hwn yn cael ei adnabod fel Thrombocytopenia Aloimiwn y Newydd-enedigol neu NAIT, ac mae'n digwydd mewn tua 1 o bob 1,000 beichiogrwydd.

Yn y DU, - mae 80% o achosion NAIT yn cael eu hachosi gan wrthgyrff gwrth-APD-1a, 15% gan wrthgyrff gwrth-APD-5b, a 5% gan wrthgyrff APD eraill.

## Sut mae NAIT yn effeithio ar fy mabi?

Mae'r effaith ar eich babi yn dibynnu ar faint o blatennau'r babi sydd yn cael eu difrodi neu eu dinistrio. Mewn achosion ysgafn, efallai na fydd yn effeithio ar eich babi o gwbl. Mewn achosion difrifol, gall y difrod i blatennau eich babi achosi gwaedu difrifol, a allai gael effaith mawr ar iechyd eich babi.

## Sut mae babanod sydd â'r cyflwr NAIT yn cael eu trin?

Unwaith y bydd y cyflwr yn cael ei ddiagnosio neu ei amau, gellir rhoi trallwysiad platennau i'ch babi sydd â math APD tebyg i un y fam. Hon yw'r driniaeth fwyaf effeithiol, gan ei bod yn cynyddu nifer y platennau yng ngwaed eich babi gyda phlatennau na fydd yn cael eu dinistrio gan y gwrthgyrff APD.

## Beth sydd yn digwydd wedyn?

Bydd nifer y platennau sydd gan eich babi yn raddol, yn mynd yn ôl i normal o fewn ychydig ddyddiau neu wythnosau ar ôl y geni. Ar ôl hynny, bydd gwaed eich babi yn hollol normal, ac ni ddylai ef neu hi gael unrhyw broblemau yn y dyfodol.

## Ydy gwrthgyrff platennau yn gallu effeithio ar fy iechyd?

Ni fydd gwrthgyrff APD yn effeithio ar y platennau yng ngwaed y fam. Fodd bynnag, mae angen iddynt roi ystyriaeth i'r rhain wrth ddewis gwaed addas os fydd y fam fyth angen trallwysiad gwaed. Dyma pam y byddwch chi (y fam) yn cael cerdyn, sy'n nodi pa wrthgyrff APD sydd wedi cael eu cynhyrchu. Dylai'r cerdyn hwn gael ei gadw'n ddiogel, a dylid ei ddangos i'r staff meddygol a allai fod yn eich trin chi.

## Beth sydd yn digwydd i'r gwrthgyrff yn fy ngwaed?

Unwaith y bydd y gwrthgyrff yn cael eu cynhyrchu, efallai y byddant yn aros yng ngwaed y fam am amser hir, weithiau am oes.

## Beth os byddaf yn mynd yn feichiog yn y dyfodol?

Os yw mam wedi cael babi yr effeithiwyd arno gan NAIT, gallai unrhyw feichiogrwydd yn y dyfodol fod mewn perygl o etifeddu'r cyflwr NAIT hefyd, a bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar fath APD y tad. Er enghraifft, os yw math y tad yn APD-1a1a, mae siawns o 100% y bydd y babi yn etifeddu APD-1a a bod mewn perygl o etifeddu'r cyflwr NAIT (gweler enghraifft 1). Fel arall, os yw'r fam yn cynhyrchu gwrthgyrff APD-1a a'r tad yn cynhyrchu gwrthgyrff APD-1a1b, mae siawns o 50% y bydd y babi yn cael ei effeithio gan y cyflwr NAIT (gweler enghraifft 2).

Os ydych chi wedi cael babi sydd wedi cael ei effeithio yn flaenorol a'ch bod yn beichiogi eto, dylech ofyn i'ch meddyg teulu neu obstetregydd i drefnu i chi gael eich cyfeirio at Uned Feddygaeth y Ffetws (FMU). Bydd hyn yn galluogi'r beichiogrwydd i gael ei fonitro'n agos ac, os oes angen, i unrhyw driniaeth gael ei roi i'r babi heb ei eni.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau am yr wybodaeth yn y daflen hon, neu os oes unrhyw beth yn eich poeni, cysylltwch â'ch meddyg neu eich bydwraig.

Gallai'r taflenni canlynol fod o ddiddordeb i chi hefyd:
www.naitbabies.org
info@naitbabies.org

## Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am drallwysiadau gwaed a bod gennych fynediad i'r rhyngrwyd, efallai y bydd y gwefannau canlynol yn ddefnyddiol i chi:

**Gwasanaeth Gwaed Cymru**
**www.welshblood.org.uk**

**NHS Choice**
**www.nhs.uk/conditions/blood-transfusion**

**Gwasanaethau Trallwyso'r DU**
**www.transfusionguidelines.org.uk**

**NHSBT**
**www.blood.co.uk**

I gael copïau ychwanegol o'r daflen hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch Gwasanaeth Gwaed Cymru ar 01443 622126.

Hoffem ddiolch i wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.

**Gwasanaeth Gwaed Cymru**

**0800 252266**

**gwaed-cymru.org.uk**

**Diogelu data**
Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cadw cofnod o'r holl brofion mae'n eu perfformio ac unrhyw gyngor mae'n ei gynnig i'ch tîm gofal iechyd, i redeg ei wasanaeth yn effeithlon ac yn ddiogel. Bydd eich data'n cael ei gadw'n ddiogel, ac yn unol â'ch hawliau dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

Oherwydd nad oes llawer o achosion o glefyd hemolytig y newydd-anedig, rydym yn gofyn i ysbytai am ychydig o fanylion am unrhyw fabi a allai gael ei effeithio, yn fuan ar ôl i'r babi gael ei eni. Rydym angen yr wybodaeth hon er mwyn ein helpu i wella ein gwybodaeth, ac i roi'r gofal gorau posibl i'r holl famau a'u babanod.

GGC Cyf: 189E Fersiwn 1.1 05/18

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust